CYNGOR TREF LLANBEDR PONT STEFFAN
COFNODION Y PWYLLGOR LLAWN A GYNHALIWYD AR DDYDD IAU Y 26ain O FIS GORFFENNAF AM 7.30PM YN NEUADD Y DREF, LLANBEDR PONT STEFFAN

1. CROESO GAN Y CADEIRYDD

Estynwyd croeso gan y Maer Christopher Thomas i bawb a oedd yn bresennol.

YN BRESENNOL

Cyng. Maer Chris Thomas (**Cadeirydd**)

Cyng: Dirprwy-Faer Selwyn Walters, Cecilia Barton, Andrew Carter, Elsie Dafis, Hazel Davies, John Davies, Margaret Davies-Evans, Greg Evans, Robert Harris, Lynda Mason-George, Robert Phillips, Kistiah Ramaya, Dorothy Williams a Derek Wilson.
Yr Heddferch Jo Grey

2. MATERION PERSONOL

Hoffai'r aelodau Cyngor y Dref nodi eu diolch i Mr Rhun Leeding, gohebydd y Wasg sy'n cynrychioli'r *Cambrian News* yng nghyfarfodydd misol y Cyngor Tref, am ei waith ymroddgar yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Bydd yn ffarwelio â Llambed yn fuan ac eiddunir yn dda iddo'n Abertawe.

3. DATGAN A CHOFRESTRU DIDDORDEB PERSONOL

Datgelodd yr aelodau yma eu diddordeb personol yn y materion a nodwyd yn y cofnodion canlynol:

Cyng.	**Paragraff:**	**Mater o dan ystyriaeth**
H.Davies	10.2	Cais am gymorth ariannol
H. Harris	10.2	Pwyllgor y Carnifal
D.Williams	10.2	

4. YSTYRIED COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR A GYNHALIWYD AR Y 28ain O FEHEFIN 2007

Cynigwyd, eiliwyd ac mi gariwyd fod y cofnodion cyfarfod 28ain o Fehefin yn gywir, a'u harwyddwyd gan y cadeirydd.

5. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU

5.1 **Eglurodd yr Heddferch Jo Grey** yr oedi ynglŷn â sefydlu *Ardal Gwahardd Alcohol*, mae'r heddlu'n dal i ddisgwyl yr adroddiad yn ymwneud â thref Aberystwyth cyn medru symud y mater ymlaen yn Llambed.

5.2 **Bu dau ladrad** yn Llambed yn ystod y mis olaf (o ddiwedd Mehefin tan ddiwedd Gorffennaf). Adroddodd yr Heddferch Jo Grey hefyd, 8 trosedd difrifol sydd wedi eu datrys, 4 difrod i gerbydau a 5 meddiant o ganabis.

5.3 **Mae Warden Traffig** yn crwydro'r dref a bydd modurwyr sydd wedi parcio eu ceir yn anghyfreithlon, yn derbyn tocyn cosb. Gwelwyd dipyn o barcio ar balmantau'n ddiweddar.

5.4 **Bydd yr Arolygydd Heddlu (AH) Mark James yn** cysylltu â'r Cyngor Tref i drafod y *Cytundeb* arfaethedig rhwng y Cyngor Tref â heddlu Llanbedr P.S.

5.5 **Fel rhan o'r ymgyrch yr heddlu i sefydlu dolen gyswllt** â'r gymuned Llanbedr P.S. bydd Swyddog Gymuned yr Heddlu Jo Grey yn cynnal syrgeri agored ar safle'r Co-op ar Ddydd Gwener y 10fed o Awst o 4-6pm, i drafod materion sy'n pryderu preswylwyr y dref ac mi fydd ystafell breifat ar gael. Dywedodd, "Mae'r digwyddiad yn

deillio o'r syniad o fod mewn lleoliad llai ffufriol i'r Orsaf Heddlu, a'i wneud yn haws felly, i'r cyhoedd i gysylltu â ni."

6. MATERION YN CODI O'R COFNODION BLAENOROL

6.1 **Cittaslow**: **datblygiadau pellach-**yn parhau i ddisgwyl ateb oddi wrth Cyngor Tref yr Wyddgrug, gyda'r bwriad i drefnu dyddiad ar gyfer ymweliad â'r dref ym mis Medi.

6.2 **Swyddfa'r Post Llanbedr P.S. Hysbysiad oddi wrth Swyddfa'r Post Cyf**. Bydd adleoliad y Swyddfa'r Post i safle'r archfarchnad y Co-op yn mynd yn ei flaen a'r gangen bresennol yn cau ei ddrysau am y tro olaf ar ddydd Mercher yr 8fed o Awst am 13:00. Cytunwyd i fynegi siom y Cyngor Tref wrth y Swyddfa Post Cyf, ar ddod i'r fath benderfyniad.

Adroddwyd fod rhaid i unrhyw newidiadau strwythurol neu defnydd i'r adeilad presennol gydymffurfio ag anghenion Adeilad Rhestredig Gradd 2**.**

6.3 **Diweddaraf ynglŷn â'r fainc: Teulu Kakitsuka:** cytunwyd i leoli'r fainc am gyfnod dros-dro tu allan i'r fynwent ar gyrion y dref, ar yr Heol Llanwnnen yr A475

6.4 **Datblygiad Tai, Heol y Wig, CSC**: llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn cadarnhau y bydd yr enw *Coed Barcud* yn cyfeirio at fynedfa y datblygiad tai arfaethedig. Os yw'r datblygwyr yn mynnu cyfeirio at y datblygiad fel *Maeshyfryd*, yna y maent o fewn eu hawliau i wneud hynny, gan fod y datblygiad wedi ei leoli ar dir preifat. Beth bynnag, cyfeiriad post y tai newydd fydd - Rhif y Tŷ/Rhif y Plot, Coed Barcud, Llanbedr P.S. SA48 ***".

6.5 **Polisi Iaith Gymraeg Arfaethedig – Cyngor Tref Llanbedr P.S.**: Arweiniwyd aelodau'r Cyngor Tref drwy'r *Bolisi Iaith Gymraeg Arfaethedig*, gan y Cyng. Rob Phillips, sef fersiwn diwygiedig o'r ddogfen safonol a gynhyrchir gan *Fwrdd yr Iaith Gymraeg*. Soniwyd, yn y cynllun arfaethedig y Cyngor Tref, y cyflogir cyfieithydd allanol i ymgymryd â chyfieithu'r cofnodion ayb, er nad yw'n angenrheidiol o safbwynt y gyfraith i wneud hynny. Yn ôl cyrff fel *Bwrdd yr Iaith* ac *Un Llais Cymru* mynegwyd mai'r clerc sydd bennaf yn gyfrifol am ymgymryd â'r tasgau cyfieithu mewn canran uchel o'r Cynghorau Tref/Cymuned yng Nghymru. Cytunodd aelodau i ail-ystyried y sefylla. Un ffon fesur a ddefnyddir fydd y gost.

6.6 **Adborth: cyfarfod Hyder 29/06/2007: Mynychodd y Maer C.Thomas** gyfarfod ym mhresenoldeb Mr Geoffrey Foy, arweinydd tîm *Hyder Consulting*. Comisiynwyd y cwmni gan yr *Adran ar gyfer yr Economi a Thrafnidiaeth y Cynulliad Cenedlaethol* i greu adroddiad sy'n cylchdroi o gwmpas dyfodol Llanbedr P.S. Mynegodd gynghorwyr bryder ynglŷn â manylder yr adroddiad drafft, a fydd yn debygol i fod yn barod y mis yma. Gallai gael ei ddefnyddio i gefnogi ceisiadau cwmniau sy'n bwriadu lleoli archfarchnad arall yn y dref. Roedd aelodau o'r farn nad oedd y cyfarfod diweddar wedi ei hysbysu'n ddigonol, gan nad oedd rhai grwpiau'r dre ee *Y Siambr Fasnach* yn ymwybodol o'r bwriad i'w gynnal. Cytunwyd i wahodd Mr Foy i'r cyfarfod nesaf y Cyngor Tref.

6.7 **Adborth: Cyfarfod Partneriaeth Pobl Ifanc Ceredigion a gynhaliwyd ar y Ceredigion 13/07/2007** (a wnewch chi gyfeirio at y cofnodion amgaeëdig)

6.8 **Adborth: Cyfarfod â Chynrychiolwyr *Dŵr Cymru*:** Cyfarfuodd y *Rheolwr Rhwydweithiol Richard Lewis* a'r *Peiriannydd Rhwydweithiol Richard Davies* â thyrfa fechan o'r Cyngor Tref ar y 16eg o Orffennaf i drafod y problemau'n ymwneud â'r llifogydd yn Llanbed. Mae asiantau *Dŵr Cymru* sef Cyngor Sir Caerfyrddin, wedi eu cyfarwyddo i archwilio draeniau penodedig. Ar y 23ain o Orffennaf dechreuwyd ar y gwaith dwys i gael gwared â'r llaid ac yn ogystal bydd arolwg camera yn archwilio am rwystr yn y pibau. Prif achos y llifogydd oedd methiant y system i ymdopi â'r lliferiant ddŵr, a syrthiodd mewn cyn lleied o amser.

6.9 **Dawns Haf i Blant:** gohiriwyd tan Mis Medi

6.10 **Pwll Nofio Llanbedr P.S.** derbyniwyd llythyr oddi wrth Rheolwr y Pwll Nofio Mr John Whitworth, yn pwysleisio'r ffaith mai diffyg cydweithio ar ran Cyngor Sir Caerfyrddin i osod *Cytundeb Lefel Gwasanaeth* mewn lle, oedd yn gyfrifol am y gwaharddiad yn atal disgyblion dros y ffin rhag derbyn hyfforddiant nofio yn y pwll. Daethpwyd i'r penderfyniad yma ar ôl derbyn cyngor cyfreithlon. Dywedodd,

"Mae'n rhaid i mi egluro mai yn ystod y 6 mis olaf y mae'r Pwyllgor Pwll Nofio wedi ceisio datrys problem sydd wedi codi heb fod unrhyw fai ar ran y Pwll Nofio. Daeth y penderfyniad i wahardd disgyblion cynradd oddi wrth Cyngor Sir Caerfyrddin. Gobeithio erbyn Mis Medi mi fydd y broblem wedi ei ddatrys a bydd y trefniant oedd mewn bodolaeth cyn hyn wedi ei ail-sefydlu ".

6.11 **Y Cynllun Bathodyn Glas: consensiynau parcio ar gyfer yr anabl a'r dall:** ymateb oddi wrth y Cyngor Sir yn sôn mai'r Adran y Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n penderfynu pa bobl sy'n gymwys ar gyfer y cynllun. Caiff y camddefnydd o'r bathodynnau glas eu monitereiddio gan y warden traffig. Ar ôl derbyn y bathodyn a'r *Daflen Ymgynghorol y Bathodyn Glas* a gyhoeddwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, bydd y perchennog yn ymwybodol o ble y gall barcio a sut i arddangos y bathodyn. Mae gorfodiaeth ar Awdurdodau Lleol i ddarparu lleoedd parcio ar gyfer yr anabl a'r deillion. Dim ond perchenogion bathodyn glas sy'n berchen cerbydau di-dreth (gan eu bod yn gymwys i lwfans uchel i alluogi hwy i deithio o gwmpas neu'n gyrru cerbyd sydd wedi ei addasu ar gyfer eu hanabledd) sy'n deilwng i barcio'n rhad ac am ddim. Mae angen bathodyn glas a disg-treth addas er mwyn bod yn gymwys ar gyfer parcio am ddim. Yn ôl y Cyng. Harris y mae'r cyngor sir yn ail-ystyried y mater ee a ydy Perchenogion y Bathodynnau glas yn gymwys i barcio mewn ardaloedd penodedig ar ôl talu?

6.12 **Cynllun Ail-gylchu yn y bag yn Llanbedr P.S.: derbyn gwydr fel defnydd ailgylchadwy**: ateb oddi wrth y Cyngor Sir yn dweud bod y cynllun "Ail-gylchu yn y bocs" wedi ei newid i'r cynllun "Ailgylchu yn y bag" ac er mwyn cynnig gwasanaeth o'r un ansawdd i drigolion y dref, y mae gwydr yn parhau i gael ei ganiatau fel defnydd ailgylchadwy. Fodd bynnag, oherwydd y dulliau a ddefnyddiwyd i ddidoli deunyddiau oddi ar y bagiau tryloyw ac am resymau *Iechyd a Diogelwch*, gall gwydr achosi anawsterau pan gyrhaeddir LAS yn Llanbedr P.S. Am y rhesymau yma anogir trigolion i ddefnyddio'r banciau gwydr ar gyfer ail-gylchu yn hytrach na'r bagiau tryloyw. Mae'r cynllun ailgylchu yn y bag wedi ei ymestyn i gynnwys 75% o breswylwyr tai y sir, ond ni chaniateir gwydr mewn lleoedd eraill; yn yr ardaloedd yma caiff y trigolion eu hargymmell i ddefnydio banciau gwydr. Mewn ymgais i sicrhau nad yw'r cynllun ailgylchu yn y dref yn dioddef o unrhyw newidiadau pellach ac i annog preswylwyr i gyfrannu yn y cynllun, caniateir gwydr yn y bagiau tryloyw yn Llanbedr P.S. ond nid oes cyfeiriad i hyn yn y taflenni a'r llenyddiaeth diweddar a ddosbarthwyd i drigolion yn sôn am y cynllun. Gwahoddwyd sylwadau y Cyngor Tref. Penderfynwyd i atgoffa'r Cyngor Sir o'u penderfyniad blaenorol i ddarparu taflenni i drigolion Llanbedr P.S. yn pwysleisio'r ffaith bod gwydr yn cael ei ganiatau fel deunydd i'w ail-gylchu.

6.13 Cais y Cyngor Tref am Arolwg Trafnidiaeth Llawn CSC

Mewn ateb i geisiadau blaenorol, derbyniwyd yr ymatebion canlynol oddi wrth y Cyngor Sir:

6.13.1 **Cyfyngiad Cyflymder o 20mya:** ar hyn o bryd y mae'r cyngor sir wedi cyflwyno cyfyngiadau cyflymder o 20mya gerllaw rhai ysgolion ac ardaloedd preswyl o fewn Ceredigion. Does dim cynlluniau ar y gorwel i gyflwyno gwaharddiad o 20mya o fewn canol y dref, gan fod yna ddarpariaeth ddigonol ar gyfer croesi a cherdded. Nid ydynt yn ymwybodol o unrhyw bryderon yn ymwneud â chyflymder traffig ynghanol y dref.

6.13.2 **Mae'r broblem o barcio ar ei gynnydd (Parcio'n anghyfreithlon a lleoedd i barcio):** bydd posibilrwydd efallai, yn y dyfodol i ddatblygu cynlluniau ar gyfer parcio i breswylwyr y dref ac i lynu'n llym wrth amodau ar gyfer parcio.

6.13.3 **Byddai system un-ffordd yn Stryd Newydd o fantais;** bydd y cyngor sir yn ymchwilio i'r posiblirwydd o gyflwyno system un-ffordd yn Stryd Newydd, pan fydd yr adnoddau ariannol ar gael.

6.13.4 **Mae'r pwynt pinsio symudiant trafnidiaeth yn Stryd y Coleg yn rhwystro modurwyr rhag teithio'n gyflym ar yr heol yma.** Byddai ymgais i waredu â'r ymarfer yma (drwy gyflwyno gwaharddiadau parcio) yn debygol i gynyddu cyflymder trafnidiaeth, sy'n wrthwyneb i'r cais am gyfyngiad cyflymder o 20mya yn y dref. Yn ychwanegol, byddai gwaharddiad parcio yma, yn cyfrannu tuag at bwysau ychwanegol ar y lleoedd parod.

6.13.5 **Eitem arall a drafodwyd yn y llythyr oddi wrth y Cyngor Sir oedd y pryder yn ymwneud â Lôn Picton-** yn yr ateb dywedwyd nad oedd cynlluniau ar y gweill i weithredu unrhyw welliannau ar gyfer y lleoliad yma.

6.14 **Biniau Blwch-Llwch:** Cysylltwyd â'r Cyngor Sir i ofyn am gymorth i leoli biniau ar gyfer ysmygwyr strydoedd Llanbedr P.S. mewn materion yn ymwneud â lleoliad y biniau, y pris a'r gwasanaethu - llythyr oddi wrth yr Adran y Gwasanaethau Amgylcheddol y cyngor sir yn dweud mai yr Adran y Priffyrdd sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb am finiau stryd. Mae'r llythyr wedi ei ail-gyfeirio i'r adran yma.

7. GOHEBIAETH Cofnod 25/2007

Nodwyd er gwybodaeth yn unig:

7.1 **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:** Adroddiad Blynyddol 2006/07

7.2 **"Ôl Troed" –** cylchlythyr a gynhyrchwyd gan Adain Rheoli Gwastraff Cyngor Sir Ceredigion

7.3 **Cymdeithas Tai Cantref Cyf:** pecyn gwybodaeth

7.4 **Un Llais Cymru:** Polisi ar Weithredoedd Annerbyniol gan Unigolion

7.5 **Arsyllfa Wledig Cymru:** Arolwg Gwasanaethau

7.6 **Academi Chwaraeon Ceredigion 2007:** Rhaglen Gweithredu yr Haf

8. MENTER LLAMBED Cofnod 26/2007

Rhoddodd y Cyng. Greg Evans adroddiad ddiweddar i aelodau a ganlyn:

8.1 **Mae enwau a chyfeiriadau cynghorwyr sydd wedi eu cynnwys yn yr adran Cyngor Tref gwefan** Menter Llambed, wedi ei addasu i gynnwys manylion am y ddwy aelod newydd.

8.2 **Mae'r Cynllun Busnes olaf Neuadd y Dref wedi ei gyflwyno i** AACRH (DEIN) (Adran ar gyfer Anturiaeth, Cyfnewidiad a Rhwydweithiau) ac i'r Cyngor Sir.

8.3 **Mae Pwyllgor Tref Drawsnewidiol wedi ei sefydlu.** Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar y 4ydd o Orffennaf.

8.4 **Pamffledyn Twristiaeth:** datblygiadau ar y gweill.

8.5 **Cynllun *Ffyrdd i mewn i Lambed*:** Mae *Menter Llambed* wedi cychwyn prosiect newydd sef "*Ffyrdd i mewn i Lambed*" sy'n ymateb i'r syniadau a gynigwyd yn y Cyfarfod Cyhoeddus *Menter Llambed* ym 2006. Yn y ddogfen drafodaeth a gyflwynwyd i'r Cyngor Tref cynigwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella'r ffyrdd i'r dref, yn ogystal â chanllawiau cychwynnol. Gofynnir am sylwadau'r Cyngor Tref cyn y 7fed o Fedi.

Y prif amcanion yw, "i wneud Llanbedr P.S. yn le atyniadol i ymweld ac aros ynddi, drwy wneud gwelliannau i'r ffyrdd ffisegol i mewn i'r dref. Os yn disgyn godreon y mynyddoedd Cambrian ar yr A482 neu'n nesau ar y dyffryn ar yr A485

neu A475 mae'r golygfeydd cychwynnol yn cael eu amharu gan glwstwr o arwyddion, gwifrau a goleuadau". Bydd y prosiect yn ystyried y ddarpariaeth o *Ganolfan Groeso* yn y dref. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

8.5.1 Creu mynedfa ddeheuol gan ddefnyddio'r nodweddion tirweddol parod, yn bennaf yr arglawdd a'r dolydd sy'n dueddol i gael llifogydd.

8.5.2 Hyrwyddo'r safle y groesffordd afon ac i bwysleisio yr olygfa estynedig Heol y Bont i fyny at Eglwys San Pedr.

8.5.3 Gwella'r ddarpariaeth o arwyddion ac arddangosfeydd gwybodaeth yn y dref ac o gwmpas y dref er mwyn croesawi ymwelwyr ac i hwyluso eu ffordd o gwmpas y dref.

8.5.4 Gwella cyfleusterau ar gyfer seiclwyr, cerddwyr a theithwyr trafnidiaeth cyhoeddus.

Mae argymhellion yn ymwneud â'r amgylchedd wedi eu gosod hefyd.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO
Cofnod 27/2007

9.1 Adroddwyd fod y ceisiadau cynllunio canlynol wedi eu caniatau gan y Cyngor Sir.

Rhif y cais	Ymgeisydd:	Lleoliad:	Caniatâd i :
A070174	Menter Llambed Cyf	Neuadd y Dref Street Fawr Llanbedr P.S.	Newid defnydd o dŷ cwrt i ganolfan arddangos cwiltiau Cymreig a gwaith mân
A061142	J H & G A Jones Dolaugwyrddion Lampeter	Lôn Glynhebog Llanbedr P.S.	Codi annedd
A070405	Y Cynulliad Cenedlaethol	Marchnad Llanbedr P.S Llanbedr P.S.	Adnewyddu a thrawsnewid Adeilad yr Orsaf a chodi estyniad er mwyn darparu Swyddfeydd Dosbarth B1, tirlunio cysylltiedig a pharcio ar gyfer ceir
A070406	Y Cynulliad Cenedlaethol	Marchnad Llanbed Llanbedr P.S.	Adeiladu uned diwydiannol parod

10. CYLLID
Cofnod 28/2007

10.1 Adroddwyd fod trefniadau wedi eu gwneud ar gyfer y 30 o fasgedi hongian *Y Siambr Fasnach,* sydd wedi eu lleoli ar y lampau stryd dros gyfnod 3-4mis y flwyddyn. Cânt eu cynnwys ym mholisi yswiriant y Cyngor Tref.

10.2

	Gwein.	Cynnal a chadw	Adran 137	TAW
GWARIANT	£	£	£	£
Cyflog y clec – 1 mis	359.72			
Treth ac YC	92.73			
Gwres a golau	20.00			
Cefnogaeth i Ddioddefwyr Dyfed			25.00	

Carnifal Llanbedr P.S			350.00	
Hysb. Cyfarfod Cyhoeddus: C.News	174.00			30.45
G.Davies- hurio meicroffon 12/11/06	50.00			
CCTV 2 fis		3,266.68		571.67
CYFANSWM	696.45	3,266.68	375.00	602.12
CYFANSWM Y GWARIANT	**£4,939.25**			

11. IS-BWYLLGORAU

Cofnod 29/2007

11.1 **Palmantau: Cariwyd allan asesiad risg ar nifer o balmatau'r dref gan y** Cyng. R. Phillips ac Elsie Dafis. Gweler *Adroddiad y Pwyllgor Palmantau* sy'n amgaeëdig. Trosglwyddir gopi i'r Cyngor Sir.

11.2 **Llwybrau Cerdded:** mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen yn ystod misoedd yr haf.

11.3 **CCTV Camerau: CSC Adroddiad: Mehefin 2007:** adroddwyd fod 5 cais wedi eu gwneud gan yr heddlu i edrych ar ddeunydd fideo, roedd gwybodaeth yn ymwneud â lladrad i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion y llys/ymchwiliad. Mae problemau'n bodoli ar 2 gamera. Dalier i ddisgwyl y gwelliannau arfaethedig. Mae'r Prifysgol Cymru Llanbedr P.S. wedi penderfynu i ddileu y taliadau blynyddol tuag at y camerau CCTV y Cyngor Tref. Yn eu barn hwy, y mae eu system CCTV yn ogystal â chyflogi Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ddigonol i gwrdd â'u gofynion diogelwch. Ni dderbyniwyd tâl ar gyfer y camerau CCTV am y flwyddyn ariannol yn gorffen ar y 5ed o Ebrill 2007.

11.4 **Goleuadau Stryd –** adroddwyd fod golau stryd sydd wedi ei leoli ar Heol y Bryn yn ddiffygiol (cyfeirnod 8055).

12. UFA: Cofnod 30/2007

12.1 **Parcio – Rhes Harford**: Mynegodd y Cyng. M. Davies-Evans bryder ynglŷn â'r parcio sy'n parhau tu allan i'r Rhes Harford gan bobl heb yr hawl i wneud hynny. Penderfynwyd i adrodd y mater, unwaith yn rhagor i'r Cyngor Sir gan ofyn iddynt ddarparu arwydd yn y lleoliad yma.

12.2 **Deallwyd nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â defnydd yr hen ysgol** ar ôl adleoli i'r adeilad newydd.

12.3 **Atgoffwyd aelodau am y Ffair Fwyd a gynhelir ar Ddydd Sadwrn yr 28ain o** Orffennaf, y Carnifal Blynyddol ar y 4ydd o Awst a'r Sioe Llambed ar y 17eg o Awst.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.45pm.

13. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dydd lau 30ain o Awst 2007 am 7.30pm, yn Neuadd y Dref.